Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cadw plant yn ddiogel rhag camfanteisio yn rhywiol ar blant



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **'Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Canllaw Statudol mewn perthynas â Rhan 7 o'r Ddeddf – diogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant'.**

**Mehefin 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd i'w deall efallai. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 30**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **Sam Clutton:**


**Cyfeiriad:** Cangen Diogelu ac Eiriolaeth
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

**Ffôn:** 03000 651 656

**E-bost:**
takingsocialcareforwardSymudGofalCymdeithasolYmlaen@gov.wales


Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

Tudalen

Am y ddogfen yma....................................................................................4

1.Am gamfanteisio'n rhywiol ar blant.......................................................... 6

2.Stopio camfanteisio'n rhywiol  ar blant.................................................... 8

3.Beth i'w wneud os ydy plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol............10

4.Rhoi'r plentyn yn gyntaf........................................................................... 11

5.Pobl sydd yn achosi camfanteisio'n rhywiol ar blant..............................12

Deall ac adrodd am gamfanteisio yn rhywiol ar blant................................13

Sut i gefnogi plant sydd wedi cael eu cam-drin fel hyn..............................21

Geiriau anodd.............................................................................................26

# Am y ddogfen yma




Yng Nghymru mae gennym ni ddeddf o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.** Mae'n helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag niwed.




Mae yna 7 o ganllawiau i fynd gyda'r ddeddf yma. Mae'r canllawiau yn helpu gwasanaethau a chyrff i ddilyn y gyfraith a chadw pobl yn ddiogel.



Gyda'i gilydd mae'r canllawiau yn cael eu galw yn **Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl.**




Dyma ganllaw rhif 7. Mae canllaw 7 yn ymwneud â chadw plant yn ddiogel rhag **camfanteisio'n rhywiol ar blant**.



**Camfanteisio yn rhwyiol ar blant** ydy pan mae plentyn yn cael ei **gam-drin yn rhywiol** gan rywun.



**Cam-drin** ydy unrhyw fath o ymddygiad sydd yn achosi niwed i rywun.  **Cam-drin rhywiol** ydy pan mae rhywun yn gwneud rhywbeth rhywiol i blentyn. Neu yn dangos lluniau rhywiol i blentyn.


**Mae Canllaw 7 yn dweud wrth staff a gwasanaethau:**



- Beth i'w wneud os ydy plentyn yn cael ei **gam-drin** neu mewn perygl o gael ei **gam-drin**.



- A sut i'w stopio rhag digwydd.



Children Act 2004

Mae'r canllaw yma yn bwysig hefyd i ddeddf arall o'r enw **Deddf Plant 2004**.



Pan rydyn ni'n dweud **plentyn** rydyn ni'n meddwl unrhyw blant neu bobl ifanc i fyny at 18 oed.

# 1. Am gamfanteisio yn rhywiol ar blant



Mae **camfanteisio yn rhywiol ar blant** yn fath o **gam-drin rhywiol**. Mae'n meddwl rhoi rhywbeth da i blentyn. Neu dynnu rhywbeth drwg i ffwrdd. Er enghraifft:



- Efallai bod y plentyn yn cael rhywbeth fel rhoddion, arian neu sylw am weithred rywiol.



- Efallai bod rhywun yn dweud wrth y plentyn na fyddan nhw'n cael eu brifo os ydyn nhw'n cytuno â'r **cam-drin**.



- Neu efallai bod rhywun yn dweud wrth y plentyn y bydd rhywbeth drwg yn digwydd i rywun arall os dydyn nhw ddim yn gwneud beth mae'r person yn ei ddweud.



Mae unrhyw blentyn yn gallu bod mewn perygl o **gamfanteisio yn rhywiol ar blant**. Does dim ots o le maen nhw'n dod. Neu os ydyn nhw'n ferch neu yn fachgen.



Mae'n bwysig bod pobl yn deall arwyddion o **gamfanteisio yn rhywiol ar blant.**



Mae'n gallu bod yn wahanol ym mhob sefyllfa. Er enghraifft, mae rhai plant yn gallu cael eu **paratoi i bwrpas rhyw**.

**Paratoi i bwrpas rhyw** ydy pan fydd person yn ceisio cael ymddiriedaeth plentyn er mwyn eu **cam-drin** nhw.



Neu efallai bydd rhai pobl yn ceisio rheoli'r plentyn neu eu gorfodi i wneud rhywbeth.



Mae'n gallu digwydd ar-lein hefyd – ar y rhyngrwyd.



Yn aml, dynion ydy'r bobl sydd yn **cam-drin** plant. Ond weithiau maen nhw'n fenywod.



Mae'n gallu bod yn 1 person. Neu yn grŵp o bobl.



Mae'n gallu bod yn aelodau'r teulu.



Weithiau mae plant yn **cam-drin** plant eraill.



Dydy'r rhan fwyaf o blant ddim yn dweud wrth neb eu bod nhw'n cael eu **cam-drin**.



Felly mae'n bwysig iawn bod staff mewn gwasanaethau i blant yn chwilio am yr arwyddion. Ac yn adrodd am hynny.

## 2. Stopio camfanteisio yn rhywiol ar blant



Mae'n bwysig bod pobl yn deall sut beth ydy'r math yma o **gam-drin**.



Mae'n bwysig hefyd gwneud yn siŵr bod plant yn cael help yn gynnar pan maen nhw ei angen.



Weithiau mae plant yn gallu bod mewn perygl mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, plant sydd gyda bywydau anodd. Mae hyn weithiau yn cael ei alw yn **Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod**.



Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod plant yn tyfu'i fyny mewn lle diogel gyda chariad a gofal.



Weithiau mae plant sydd wedi cael bywyd anodd hefyd wedi cael profiad o **gamfanteisio yn rhywiol ar blant**.



Mae angen inni gefnogi plant, teulueodd a'u cymunedau a helpu i'w gwneud nhw yn gryfach.



Mae angen inni wneud yn siŵr bod plant yn derbyn gofal da. Mae hyn yn gallu bod drwy'r teulu neu drwy fynd i ofal.



Mae hyn yn gallu helpu i stopio **camfanteisio yn rhywiol ar blant** rhag digwydd.



Mae angen inni gefnogi plant sydd wedi cael llawer o broblemau yn eu bywydau yn gynnar.




Mae angen inni wneud yn siŵr bod rhagor o bobl yn gwybod beth ydy **camfanteisio yn rhywiol ar blant**.



Mae angen inni wneud yn siŵr bod yna leoedd diogel i blant yn y gymuned.

## 3. Beth i'w wneud os ydy plentyn yn cael ei gam-drin




Mae yna reolau i helpu i ddiogelu plant os ydyn nhw'n cael eu **cam-drin**. Rhaid i staff sydd yn gweithio gyda phlant ddilyn y rheolau yma.



Rhaid rhoi'r plentyn yn gyntaf.



Ac mae angen gofyn i'r plant sut maen nhw eisiau cael eu cefnogi pan mae ganddyn nhw anghenion gofal a chefnogaeth.



Enw'r rheolau am beth rydyn ni'n ei wneud ydy **Gweithdrefnau Diogelu Cymru**.




Mae yna ganllawiau hefyd am beth i'w wneud mewn gwahanol sefyllfaoedd. Enw'r rhain ydy **Canllawiau Arfer Da Cymru Gyfan**.

# 4. Rhoi'r Plentyn yn Gyntaf



Mae **camfanteisio yn rhywiol ar blant** yn cael effaith drwg ar blant Yn aml mae'n effeithio arnyn nhw am amser hir iawn. Gall:



- effeithio ar eu perthynas â phobl eraill a'i gwneud hi'n anodd cael perthynas hapus



- effeithio ar eu hiechyd meddwl
- ei gwneud hi'n fwy tebygol eu bod nhw'n defnyddio alcohol neu gyffuriau



- ei gwneud hi'n llai tebygol iddyn nhw gael gwaith neu gartref.




Rhaid inni feddwl am hyn wrth gynllunio eu gofal a'u cefnogaeth.




Mae'n wirioneddol bwysig ein bod ni'n cael eu cefnogaeth yn iawn oherwydd yr holl beryglon hyn. A'r peryglon i'w plant, os byddan nhw'n cael rhai.



Mae gofal a chefnogaeth yn fwy tebygol o helpu'r plentyn pan rydyn ni'n deall beth maen nhw wedi ei ddioddef. A phan rydyn ni'n edrych ar eu cryfderau.




Mae ar blant angen cael eu cefnogi i gyrraedd eu nodau.



Mae arnon ni angen deall y gall hi fod yn anodd iddyn nhw ymddiried mewn pobl.



Mae plant sydd wedi cael eu **cam-drin** wedi dweud wrthyn ni eu bod nhw weithiau yn teimlo nad yw staff yn eu deall. Maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu barnu.



Mae ar staff sy'n gweithio gyda nhw angen cymryd amser i ddod i'w hadnabod ac ennill eu hyder.




Mae arnyn nhw hefyd angen sicrhau bod eu hawliau'n cael eu diogelu. A bod eu dewisiadau'n cael eu clywed. Mae'n rhaid rhoi'r plentyn yn gyntaf.



Mae plant wedi dweud wrthyn ni nad ydyn nhw bob amser yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Er enghraifft, gwybodaeth am gyfarfodydd sy'n digwydd amdanyn nhw.



Wrth weithio gyda phlant, mae ar staff angen deall yr hyn maen nhw wedi bod trwyddo. A'r effeithiau y gall hyn ei gael ar rannau eraill o'u bywydau.



Mae arnyn nhw hefyd angen deall anghenion a dewisiadau y plentyn. Er enghraifft, eu crefydd neu eu diwylliant.



Mae arnyn nhw angen tynnu teulu'r plentyn i mewn pan fydd hi'n bosibl.



Mae plant ag anableddau dysgu mewn mwy o berygl o gael rhywun yn **camfanteisio'n rhywiol** arnyn nhw.

## 5. Pobl sydd yn achosi camfanteisio yn rhywiol ar blant



Mae'n bwysig ein bod ni yn galli adnabod y bobl sydd yn achosi'r **cam-drin**. A'u stopio nhw rhag gwneud hynny.



Mae'r heddlu yn gweithio gyda chyrff yng Nghymru i helpu i wneud hyn.



Rydyn ni hefyd eisiau gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael eu cosbi am eu troseddau.




Fe fydd plant angen cefnogaeth pan mae hyn yn digwydd. Ac ar ôl i rywun fod yn y llys.




Fe ddylai sut i gefnogi plentyn gael ei ysgrifennu yn y cynllun gofal a chefnogi.

# Deall ac adrodd am gamfanteisio yn rhywiol ar blant

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud canllawiau am beth i'w wneud.



Rhaid rhoi'r plentyn yn gyntaf bob amser.



Fe ddylai pawb sydd yn gweithio gyda phlant ddeall **cam-drin rhywiol** yn well. A gwybod sut i adrodd amdano.



Fe ddylen nhw ddweud wrth eu rheolwyr os ydyn nhw'n poeni am blentyn.



Fe ddylen nhw ddweud wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol.




Mewn argyfwng fe ddylen nhw ffonio'r heddlu ar 999.



Dyma rai arwyddion bod rhywun yn cael ei **gam-drin**:

**Arwyddion corfforol**:



- Cleisiau



- Anafiadau sydd yn methu caEL eu hesbonio



- **Clefydau sydd yn cael eu trosglwyddo yn rhywiol**

> **Clefydau sydd yn cael eu trosglwyddo yn rhywiol** ydy pan mae rhywun yn dal clefyd oherwydd gweithredoedd rhywiol.

**Arwyddion emosiynol:**



- Tawel iawn



- Newidiadau mewn hwyliau



- Blin/dig



- **Hunan-niweidio**

**Hunan-niweidio** ydy pan mae rhywun yn niweidio ei hun ar bwrpas.



- Efallai bod y person eisiau lladd ei hun



- Efallai nad ydyn nhw eisiau bod gyda phobl eraill

**Arwyddion yn eu hymddygiad:**



- Maen nhw’n cadw cyfrinachau



- Maen nhw’n mynd ar goll



- Maen nhw’n cael eu gweld gyda phobl ddieithr



- Maen nhw allan o reolaeth

**Arwyddion eraill:**



- Maen nhw’n defnyddio ffôn neu gyfrifiadur arall



- Mae rhywun yn poeni am y ffordd maen nhw’n defnyddio eu ffôn symudol neu’r rhyngrwyd



- Mae ganddyn nhw ddillad neu esgidiau newydd ond yn gwrthod dweud o le maen nhw wedi eu cael




- Maen nhw’n defnyddio alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon




- Mae ganddyn nhw lawer o arian ond yn gwrthod dweud o lle maen nhw wedi ei gael



Os ydy staff sydd yn gweithio gyda phlant yn poeni bod plentyn mewn perygl **rhaid** iddyn nhw adrodd am hyn. Mae hyn yn meddwl cysylltu â’r Gwasanaethau Cymdeithasol.




Mae hyn yn rhan or gyfraith **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**.



Mae rhai staff yn gweithio mewn gwasanaethau plant ond does ganddyn nhw ddim llawer o gysylltiad â phlant. Maen nhw’n gallu cael help am sut i adrodd os ydyn nhw’n poeni.



Mae yna gwestiynau maen nhw'n gallu eu hateb sydd yn helpu i weld os ydy plentyn mewn perygl. Fe ddylen nhw ofyn i'w rheolwyr am y cwestiynau.



Dydy plant fel arfer ddim yn dweud wrth rywun eu bod nhw'n cael eu **cam-drin**.



Efallai eu bod nhw'n ofnus.



Efallai nad ydyn nhw'n gwybod beth sydd yn digwydd iddyn nhw.



Efallai eu bod nhw'n meddwl na fydd pobl yn eu credu nhw.



Mae **camfanteisio yn rhywiol ar blant** yn gallu digwydd i unrhyw blentyn.Ond mae'n fwy tebygol o ddigwydd lle mae gan y plentyn lawer o broblemau eraill.



Efallai bod plant gyda mwy o anghenion dysgu mewn mwy o berygl.



Mae'n gallu digwydd i ferched neu fechgyn.



Mae'n fwy anodd i rai plant adrodd amdano. Er enghraifft, os ydy nhw'n dod o gefndir arall. Neu os ydyn nhw'n anabl.



Dydy rhai plant ddim yn adrodd am beth sydd yn digwydd iddyn nhw oherwydd maen nhw'n cael rhywbeth maen nhw eisiau amdano.




Efallai eu bod nhw'n meddwl mai dyna'r dewis gorau sydd ganddyn nhw.



Efallai eu bod nhw'n teimlo nad ydyn nhw'n bwysig ac felly yn ei haeddu.



Mae’n bwysig iawn bod staff yn gwneud rhywbeth pan maen nhw’n poeni am blentyn.



Fel arfer mae **camfanteisio yn rhywiol ar blant** yn cael ei wneud gan rywun y tu allan i’r teulu.




Fe ddylai plant mewn perygl gael cefnogaeth i stopio **cam-drin** rhag digwydd.



Rhaid i staff adrodd hefyd os oes ganddyn nhw unrhyw bryderon am y teulu.

## 6. Sut i gefnogi plant sydd wedi cael eu cam-drin fel hyn

**1. Deall beth mae'r plant wedi ei ddioddef:**



- Rhoi dewisiadau iddyn nhw




- Gweithio gyda nhw



- Helpu nhw i ymddiried ynddoch chi



- Helpu nhw i deimlo'n gryfach



- Eu cadw nhw'n ddiogel

**2. Rhoi'r plentyn yn gyntaf:**



- Meddwl os ydyn nhw'n fachgen neu yn ferch



- Meddwl am eu cefndir



- Meddwl am eu **rhywioldeb**

> Mae **rhywioldeb** yn meddwl os ydyn nhw'n hoffi bechgyn neu ferched.



- Meddwl os oes ganddyn nhw anabledd



- Meddwl am y teulu a lle maen nhw'n byw

## 3. Helpu'r plentyn i deimlo'n gryfach




- Gadael i'r plentyn osod ei nodau ei hun



- Pan mae'r plentyn yn cael ei **asesu** edrych ar beth maen nhw'n ei wneud yn dda

> Mae **Asesiad** yn casglu llawer o wybodaeth er mwyn i chi ddeall rhywun yn well. Mae'n eich helpu i wneud penderfyniadau am sut i'w cefnogi nhw.



- Chwilio am gefnogaeth gan bobl eraill ym mywyd a chymuned y plentyn



- Helpu'r plentyn i fod yn bositif – llawn gobaith, hapus a hyderus



- Gwrando ar y plentyn a deall eu bod nhw'n gwybod orau am eu teimladau

## 4. Perthynas dda gyda'r staff sydd yn cefnogi'r plentyn




- Rhaid i staff gymryd amser i ddod i adnabod y plentyn



- Mae'r staff yno ar gyfer y plentyn pan fydd eu hangen nhw



- Dydy'r staff ddim yn barnu'r plentyn



- Mae'r staff yn gwrando ar y plentyn



- Mae'r staff yn deall y plentyn



- Mae gan y staff ddiddordeb yn y plentyn



- Mae'r staff yn siarad â'r plentyn am beth sydd yn digwydd ac am eu gofal a'u cefnogaeth



- Mae'r staff yn gwneud beth maen nhw'n ddweud y byddan nhw'n ei wneud



- Mae'r staff yn onest

## 5. Gweithio gyda'n gilydd



- Fe ddylai staff ddweud wrth blant a theuluoedd am y gwasanaethau sydd yn gallu eu helpu nhw

# Geiriau anodd

### Asesiad

Mae asesiad yn casglu llawer o wybodaeth er mwyn i chi ddeall rhywun yn well. Mae'n eich helpu i wneud penderfyniadau am sut i'w cefnogi nhw.

### Cam-drin

Cam-drin ydy unrhyw fath o ymddygiad sydd yn achosi niwed i rywun.

### Cam-drin rhywiol

Cam-drin rhywiol ydy pan mae rhywun yn gwneud rhywbeth rhywiol i blentyn. Neu yn dangos lluniau rhywiol i blentyn.

### Camfanteisio yn rhywiol ar blant

Camfanteisio yn rhywiol ar blant ydy pan mae plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol gan rywun.

### Clefydau sydd yn cael eu trosglwyddo yn rhywiol

Clefydau sydd yn cael eu trosglwyddo yn rhywiol ydy pan mae rhywun yn dal clefyd oherwydd gweithredoedd rhywiol.

### Hunan-niweidio

Pan mae rhywun yn niweidio eu hunain ar bwrpas.

### Paratoi i bwrpas rhyw

Mae hyn yn digwydd pan fydd person yn ceisio cael ymddiriedaeth plentyn er mwyn eu cam-drin nhw.

### Rhywioldeb

Mae rhywioldeb yn meddwl os ydy person yn hoffi bechgyn neu ferched.